

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad
Canllawiau Cynllunio Atodol (gweler y Tabl isod)
i Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Mabwysiadwyd Medi 2010

Roedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft canlynol, er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd arnynt, ar 12 Hydref 2011.

Atodiad i'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy
Lleoliad a Chynllun Adeiladau Fferm

Fe ddechreuodd yr ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2011 a daeth i ben ar 2 Mawrth 2012 am 5yp.

Anfonwyd tua 1,800 o lythyron at ymgynghoreion ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol, ac ymgynghoriad ar e-bost at y rheiny a oedd wedi nodi mai dyna oedd well ganddynt. Dywedwyd wrth yr ymgynghoreion y gellid cael copi o ddogfennau'r ymgynghoriad ar Gryno Ddisg, yn rhad ac am ddim, a bod y dogfennau ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan yr Awdurdod. Roedd copïau papur o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gael ar cais, am y ffi lleiaf posib.

Anfonwyd llythyron, a Chryno Ddisgiau ag arnynt ddogfennau'r ymgynghoriad, at lyfrgelloedd yn Sir Benfro ac yn Sanclêr ac Aberteifi, fel a ganlyn:

Aberteifi	Penfro	Tyddewi	Trefdraeth
Crymych	Hwlfordd	Saundersfoot	Neyland
Abergwaun	Aberdaugleddau	Dinbych-y-pysgod	
Arberth	Doc Penfro	Sanclêr	

Anfonwyd y rhain hefyd at ganolfannau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Nhrefdraeth, Tyddewi a Dinbych-y-pysgod. Roedd copïau papur o'r dogfennau ar gael i'w darllen yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ym Mharc Llanion, Doc Penfro.

Rhodddwyd Cryno Ddisgiau ag arnynt y dogfennau i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn y Parc Cenedlaethol. Rhodddwyd cyfle i'r Cynghorau ofyn am gopi papur rhad ac am ddim o unrhyw ganllawiau hefyd, os oedden nhw'n teimlo eu bod o ddiddordeb penodol iddynt. Darparwyd amlen radbost er mwyn eu hannog i wneud hyn. Yna, darparwyd unrhyw ddogfennau ar gyfer y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned heb unrhyw gost i'r Cynghorau hynny.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar wefan yr Awdurdod a thrwy hysbysiad cyhoeddus yn y Western Telegraph ar 30 Tachwedd 2011. Ymddangosodd datganiad i'r wasg yn y Western Telegraph ar 15 Chwefror 2012 hefyd.

Roedd modd cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r Awdurdod erbyn 5yp ar 2 Mawrth 2012.

Cydnabuwyd pob ymateb, ac maen nhw ar gael i'r cyhoedd eu gweld - gweler y ddolen isod at y wefan. Cafwyd cyfanswm o 55 o sylwadau unigol gan 9 unigolyn a mudiad.

Cafwyd adroddiad gerbron Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar ymatebion y swyddogion i'r ymgynghoriad ar y Canllawiau Cynllunio Atodol, yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin 2012. Gellir darllen yr adroddiad ar ymatebion y swyddogion i'r ymgynghoriad ar y canllawiau cynllunio atodol trwy ddilyn y ddolen isod at y wefan:

http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/13_06_12_Ordinary%20Meeting/27_12%20SPG%20Report%20of%20Cons.pdf

Cytunodd yr Awdurdod i ddiwygio'r canllawiau yn unol ag argymhellion y swyddogion, a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Uwchlwythwyd y Canllawiau i'r wefan yn
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183>